



Annwyl Gwsmer

Changes to Llanfachraeth Post Office LL65 4UL

Affecting Newborough 2, Llandegfan, Tal-y-bont, Dwyran, Penmaenrhos, Upper Bangor, Llanrhos, Llanfaelog, Bodffordd, Bryngwran, Malltraeth, Newborough, Dwyran 2, Llandegfan 2, Llanddona 2, Bethel, Deiniolen, Moelfre, Rhosybol, Eglwys Bach, Rowen, Henryd, Dwygyfylchi, Tal-y-bont 2, Penrhosgarnedd, Deganwy, and Deganwy 2

Rydym yn ysgrifennu i roi gwybod i chi y bydd y gwasanaethau Symudol yn Niwbwrch 2, Llandegfan,

Tal-y-bont, Llanddona, Dwyran, Penmaen-rhos, Bangor Uchaf a Llan-rhos, yn anffodus, yn dod i ben o ddydd Llun 29 Ebrill 2024 am fod cyn lleied o gwsmeriaid yn eu defnyddio.

Mae Swyddfa'r Post wedi cynnal adolygiad cynhwysfawr o'r rhwydwaith i sicrhau ei fod yn dal i ddiwallu anghenion newidiol y cwsmeriaid mewn hinsawdd economaidd heriol dros ben. Bu'r adolygiad yn archwilio'r rhwydwaith ar lefel leol yn fanwl iawn, gan ddadansoddi galw cwsmeriaid a hygyrchedd cynnyrch a gwasanaethau Swyddfa'r Post. Cafodd y canlyniadau eu hystyried wrth i ni baratoi cynlluniau ar gyfer y Rhwydwaith a gwneud yn siŵr fod ein cyllid ac adnoddau yn cael eu defnyddio i roi'r budd gorau posibl i'n holl gwsmeriaid. Ar hyn o bryd, felly, nid yw'n fwriad gennym gael gwasanaethau yn lle'r Gwasanaethau Symudol uchod.

Hoffem ymddiheuro am yr anhwylustod a allai ddigwydd oherwydd y cau. Gobeithiwn y bydd ein cwsmeriaid yn dal i ddefnyddio gwasanaethau Swyddfa'r Post. Mae'r manylion llawn am ganghennau eraill Swyddfa'r Post yn yr ardal ar ddiwedd y llythyr hwn. Mae'r wybodaeth ddiweddaraf sydd ar gael am ein canghennau ar ein gwefan www.postoffice.co.uk/branch-finder

Rydym hefyd yn gwneud rhai newidiadau i oriau agor presennol y Gwasanaethau Symudol yn Llanfaelog,

Bodffordd, Bryngwran, Malltraeth, Niwbwrch, Dwyran 2, Llandegfan 2, Llanddona 2, Bethel, Deiniolen, Moelfre, Rhos-y-bol, Eglwys-bach, Y Ro-wen, Henryd, Dwygyfylchi, Tal-y-bont 2, Penrhosgarnedd, Deganwy, a Deganwy 2. Daw'r newidiadau hyn i rym o ddydd Llun 6 Mai 2024.

Mae manylion llawn am y newidiadau hyn i wasanaethau Swyddfa'r Post ar ddiwedd y llythyr hwn. Hefyd, caiff posterï eu gosod yn lleol fel bod cwsmeriaid yn gwybod am y newidiadau.

Byddwn yn dal i gadw llygad ar faint o gwsmeriaid sy'n defnyddio gwasanaethau Swyddfa'r Post ac rydym yn hyderus y bydd ein newidiadau yn cael eu croesawu gan ein cwsmeriaid yn y cymunedau lleol.

Os bydd rhaid newid y dyddiadau am resymau annisgwyl, bydd posteri'n cael eu gosod yn lleol er mwyn rhoi gwybod i gwsmeriaid.

Byddai o gymorth pe gallech rannu'r wybodaeth hon drwy eich sianeli cyfryngau cymdeithasol a hefyd ag unrhyw grwpiau neu sefydliadau lleol yn y gymuned – er enghraifft ar hysbysfyrdau, ymhlith elusennau lleol ac mewn meddygfeydd – er mwyn helpu ein cwsmeriaid a'ch etholwyr chi i ddeall yr hyn sy'n digwydd i'r Swyddfa Bost yn y gymuned leol. Os hoffech gael cyflenwad o bosteri, rhowch wybod i ni.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau am hyn, byddwch cystal ag ysgrifennu ataf trwy'r Tîm Ymgynghori Cenedlaethol yn y cyfeiriad a nodir ar ddiwedd y llythyr. Sylwch na fydd eich sylwadau'n cael eu cadw'n gyfrinachol oni fyddwch yn gofyn i ni wneud hynny wrth nodi "Cyfrinachol / In Confidence" yn glir arnyn nhw.

Mae'r cyfathrebiad hwn yn unol â'n Hegwyddorion Ymgysylltu â'r Gymuned. Mae copi ar gael ar ddiwedd y llythyr hwn.

Mawr obeithiwn y byddwch yn cefnogi'r newidiadau rydym yn eu gwneud.

Yr eiddoch yn gywir

Carol Williams

Carol Williams
Arweinydd Darpariaeth Rhwydwaith

Mae Swyddfa'r Post Cyfyngedig wedi ymrwymo i ddiogelu eich preifatrwydd. Mae gwybodaeth ynghylch sut y gwnawn hyn ar ein gwefan yn postoffice.co.uk/privacy

I gael yr wybodaeth hon mewn fformat gwahanol, er enghraifft mewn print bras, sain neu braille, ffoniwch 03452 66 01 15 neu 03457 22 33 55 (ffôn testun).

Mae'n bosib y bydd rhaid newid oriau agor rhai canghennau.
Mae'r wybodaeth ddiweddaraf am ganghennau ar gael ar ein gwefan yn
www.postoffice.co.uk/branch-finder

Gall cwsmeriaid ddefnyddio unrhyw wasanaeth Swyddfa'r Post arall sy'n gyfleus. Isod, er hwylustod i chi, fe welwch fanylion canghennau Swyddfa'r Post eraill yn yr ardal y gallech eu defnyddio:

**Canghennau eraill yn lle Gwasanaeth Symudol Niwbwrch 2
Rhodfa Meyrick, Niwbwrch, Llanfair Pwllgwyngyll, LL61 6US**

Swyddfa Bost Y Gaerwen, Siop Tyn Gamfa, Lôn Groes, Y Gaerwen, LL60 6DD
Swyddfa Bost Llangefni, 18 Stryd yr Eglwys, Llangefni LL77 7DY
Swyddfa Bost Heol Glanhwfa, Heol Glanhwfa, Llangefni, LL77 7EY

**Canghennau eraill yn lle Gwasanaeth Symudol Llandegfan
Cilfan Bro Llewelyn, Llandegfan, Porthaethwy, LL59 5UP**

Swyddfa Bost Porthaethwy, 7 Y Stryd Fawr, Porthaethwy, LL59 5EE
Swyddfa Bost Llanfair Pwllgwyngyll, Ffordd Caergybi, Llanfair Pwllgwyngyll, LL61 5SX
Swyddfa Bost Bangor, 264 Y Stryd Fawr, Bangor LL57 1PB

**Canghennau eraill yn lle Gwasanaeth Symudol Tal-y-bont
Bro Emrys, Cae Gwigin, Tal-y-bont, LL57 3YU**

Swyddfa Bost Maesgeirchen, 90 Rhodfa Penrhyn, Maesgeirchen, Bangor, LL57 1LT
Swyddfa Bost Llanllechid, Llanllechid, Bangor, LL57 3EE
Swyddfa Bost Bangor, 264 Y Stryd Fawr, Bangor LL57 1PB

**Canghennau eraill yn lle Gwasanaeth Symudol Llanddona
Maes Parcio Yr Hen Ysgol, Neuadd Bentref Llanddona, Llanddona, Biwmares, LL58 8TS**

Swyddfa Bost Llangoed, China House, Llangoed, Biwmares, LL58 8NW
Swyddfa Bost Biwmares, 11 Stryd y Castell, Biwmares, LL58 8AP
Swyddfa Bost Porthaethwy, 7 Y Stryd Fawr, Porthaethwy, LL59 5EE

**Canghennau eraill yn lle Gwasanaeth Symudol Dwyran
Lôn Capel, Dwyran, Llanfair Pwllgwyngyll, LL61 6YN**

Swyddfa Bost Brynsiencyn, Brynsiencyn, Llanfair Pwllgwyngyll, LL61 6UG
Swyddfa Bost Y Gaerwen, 1 Tyn Gamfa, Lôn Groes, Y Gaerwen, LL60 6DD
Swyddfa Bost Llanfair Pwllgwyngyll, Ffordd Caergybi, Llanfair Pwllgwyngyll, LL61 5SX

Canghennau eraill yn lle Gwasanaeth Symudol Penmaen-rhos
Ymyl y ffordd Queens Court, 87- 89, Heol Abergele, Hen Golwyn, Bae Colwyn, LL29 9AE

Swyddfa Bost Brynsiencyn, Brynsiencyn, Llanfair Pwllgwyngyll, LL61 6UG
Swyddfa Bost Y Gaerwen, 1 Tyn Gamfa, Lôn Groes, Y Gaerwen, LL60 6DD
Swyddfa Bost Llanfair Pwllgwyngyll, Ffordd Caergybi, Llanfair Pwllgwyngyll, LL61 5SX

Canghennau eraill yn lle Gwasanaeth Symudol Bangor Uchaf
Maes Parcio Morrisons, Ffordd Caergybi, Bangor, LL57 2EE

Swyddfa Bost Bangor, 264 Y Stryd Fawr, Bangor LL57 1PB
Swyddfa Bost Porthaethwy, 7 Y Stryd Fawr, Porthaethwy, LL59 5EE
Swyddfa Bost Maesgeirchen, 90 Rhodfa Penrhyn, Maesgeirchen, Bangor, LL57 1LT

Canghennau eraill yn lle Gwasanaeth Symudol Llan-rhos
Maes y Castell, Llan-rhos, Llandudno, LL30 1NG

Swyddfa Bost West Shore, 26 Ffordd y Gogarth , Llandudno, LL30 2BW
Swyddfa Bost Llandudno, 101 Stryd Mostyn, Llandudno, LL30 2NY
Swyddfa Bost Heol Conwy, 169 Heol Conwy, Cyffordd Llandudno, LL31 9EG

Manylion am y newid i'r Gwasanaeth Symudol presennol:

Gwasanaeth Symudol Llanfaelog, Siop Gladdwr, Ymyl y Ffordd, Llanfaelog, Tŷ-Croes, LL63 5SY

Yr oriau agor newydd

Dydd Mawrth	10:30 – 11:15
Dydd Gwener	09:00 – 09:45

Manylion am y newid i'r Gwasanaeth Symudol presennol:

Gwasanaeth Symudol Bodffordd, Fronheulog, Bodffordd, Llangefni, LL77 7LZ

Yr oriau agor newydd

Dydd Mawrth	09:00 – 09:30
-------------	---------------

Manylion am y newid i'r Gwasanaeth Symudol presennol:

Gwasanaeth Symudol Bryngwran, Maes Parcio Iorwerth Arms, y Stryd Fawr, Bryngwran, Caergybi, LL65 2JL

Yr oriau agor newydd

Dydd Mawrth	09:45 – 10:15
-------------	---------------

Manylion am y newid i'r Gwasanaeth Symudol presennol:

Gwasanaeth Symudol Malltraeth, Y Fflatiau, Morawelon, Bodorgan, LL62 5AN

Yr oriau agor newydd

Dydd	11:30 – 12:00
Mawrth	

Manylion am y newid i'r Gwasanaeth Symudol presennol:

**Gwasanaeth Symudol Niwbwrch, O flaen Sefydliad Prichard Jones, Niwbwrch,
Llanfair Pwllgwyngyll, LL61 6SY**

Yr oriau agor newydd

Dydd	12:40 – 13:25
Mawrth	
Dydd	10:05 – 10:50
Gwener	

Manylion am y newid i'r Gwasanaeth Symudol presennol:

**Gwasanaeth Symudol Dwyran 2, Meddygfa Pen-bryn, Dwyran,
Llanfair Pwllgwyngyll, LL61 6YD**

Yr oriau agor newydd

Dydd Mawrth	13:35 – 14:05
-------------	---------------

Manylion am y newid i'r Gwasanaeth Symudol presennol:

Gwasanaeth Symudol Llandegfan 2, Maes Ffynnon, Llandegfan, Porthaethwy, LL59 5PR

Yr oriau agor newydd

Dydd	14:50 – 15:20
Mawrth	

Manylion am y newid i'r Gwasanaeth Symudol presennol:

Gwasanaeth Symudol Llanddona 2, Maes Parcio Maes Gwyn, Llanddona, Biwmares, LL58 8TP

Yr oriau agor newydd

Dydd	15:35 – 16:05
Mawrth	

Manylion am y newid i'r Gwasanaeth Symudol presennol:

Gwasanaeth Symudol Bethel, Neuadd Goffa Bethel, 2 Rhos, Bethel, Caernarfon, LL55 1YE

Yr oriau agor newydd

Dydd	11:30 – 12:15
Gwener	

Manylion am y newid i'r Gwasanaeth Symudol presennol:

Gwasanaeth Symudol Deiniolen, Maes Parcio Uchaf Llyfrgell Deiniolen, Y Stryd Fawr, Deiniolen, Caernarfon, LL55 3HR

Yr oriau agor newydd

Dydd	12:30 – 13:15
Gwener	

Manylion am y newid i'r Gwasanaeth Symudol presennol:

Gwasanaeth Symudol Moelfre, Y tu allan i Lyfrgell Moelfre, Y Ganolfan, Moelfre, LL72 8LS

Yr oriau agor newydd

Dydd	14:25 – 14:55
Gwener	

Manylion am y newid i'r Gwasanaeth Symudol presennol:

Gwasanaeth Symudol Rhos-y-bol, B511 Stad Siop Newydd, Rhos-y-bol, Amlwch, LL68 9RH

Yr oriau agor newydd

Dydd	15:30 – 16:00
Gwener	

Manylion am y newid i'r Gwasanaeth Symudol presennol:

Gwasanaeth Symudol Eglwys-bach, Maes Parcio'r Bee Inn, Maes-Illan, Eglwys-bach, Bae Colwyn, LL28 5UD

Yr oriau agor newydd

Dydd Mercher	09:15 – 09:45
--------------	---------------

Manylion am y newid i'r Gwasanaeth Symudol presennol:

Gwasanaeth Symudol Y Ro-wen, Maes Parcio Neuadd Goffa Y Ro-wen, Ystâd Llannerch, Y Ro-wen, Bae Conwy, LL32 8YA

Yr oriau agor newydd

Dydd Mercher	10:05 – 10:35
-----------------	---------------

Manylion am y newid i'r Gwasanaeth Symudol presennol:

Gwasanaeth Symudol Henryd, Y Cyffordd oddi ar Maes Refail a Heol Henryd,
Henryd, Aberconwy, LL32 8YH

Yr oriau agor newydd

Dydd Mercher	10:50 – 11:20
--------------	---------------

Manylion am y newid i'r Gwasanaeth Symudol presennol:

Gwasanaeth Symudol Dwygyfylchi, Ffordd Treforus, (y drws nesaf i'r caban ffôn),
Dwygyfylchi, Penmaenmawr, LL34 6UB

Yr oriau agor newydd

Dydd Mercher	13:30 – 14:30
-----------------	---------------

Manylion am y newid i'r Gwasanaeth Symudol presennol:

Gwasanaeth Symudol Tal-y-bont 2, Cae-bach, Tal-y-bont, LL57 3YJ

Yr oriau agor newydd

Dydd Mercher	14:50 – 15:35
-----------------	---------------

Manylion am y newid i'r Gwasanaeth Symudol presennol:

Gwasanaeth Symudol Penrhosgarnedd, Cilfan y tu allan i Siop One Stop, Ffordd Pen-rhos,
Penrhosgarnedd, Bangor, LL57 2NH

Yr oriau agor newydd

Dydd Mercher	15:15 – 16:40
--------------	---------------

Manylion am y newid i'r Gwasanaeth Symudol presennol:

Gwasanaeth Symudol Deganwy, Gorsaf Deganwy, Heol yr Orsaf, Deganwy, LL31 9EJ

Yr oriau agor newydd

Dydd Mercher	11:40 – 12:00
--------------	---------------

Manylion am y newid i'r Gwasanaeth Symudol presennol:

Gwasanaeth Symudol Deganwy 2, Co-op Deganwy, Ffordd Pentwyn, Deganwy, LL31 9TG

Yr oriau agor newydd

Dydd Mercher	12:15 – 12:40
--------------	---------------

Egwyddorion Ymgysylltu â'r Gymuned ynghylch newidiadau i rwydwaith Swyddfa'r Post **(detholiad)**

Mae fersiwn llawn o'r dogfen hon ar gael ar ein Hyb Ymgynghori - postofficeviews.co.uk

Rydym wedi ymrwymo i ymgysylltu â'n cwsmeriaid a'u cynrychiolwyr ac i'w cefnogi wrth i ni wneud newidiadau i rwydwaith Swyddfa'r Post. Dilynir yr Egwyddorion a ganlyn wrth gyfathrebu am newidiadau i'ch cangen Swyddfa'r Post leol.

Byddwn yn **Hysbysu** – pan fyddwn yn rhoi gwybod i gwsmeriaid am newidiadau ynghylch:

- Oriau agor
- Cau nas cynlluniwyd¹/ ymyriad a gynlluniwyd i wasanaeth
- Ailagor cangen a gaewyd yn yr un safle
- Agor cangen newydd nad yw'n ymwneud â chau blaenorol
- Lleoliad yn cael ei ddefnyddio gan Swyddfa Bost Symudol mewn cymuned
- Masnachfreinio cangen a Reolir yn Uniongyrchol yn ei safle cyfredol lle nad oes unrhyw newidiadau i'r mynediad i fan gwasanaeth Swyddfa'r Post.

Byddwn yn gosod poster yn y gangen (neu gerllaw os yw hynny'n briodol) er mwyn rhoi gwybod i gwsmeriaid am y newidiadau uchod, gan geisio rhoi pedair wythnos o rybudd. Efallai na fydd modd rhoi pedair wythnos o rybudd ar gyfer newid nas cynlluniwyd ac, os felly, rhoddwn rybudd cyn gynted ag y medrwn. Ar gyfer pob cau byddwn yn cynnwys manylion am y Swyddfeydd Post agosaf a manylion am ein llinell gymorth / ffôn testun i gwsmeriaid.

Rhoddwn wybod i gynrychiolwyr etholedig lleol sydd yn cynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i'r Aelod Seneddol, Senedd yr Alban, Senedd Cymru, neu Gynulliad Gogledd Iwerddon, Prif Weithredwr yr Awdurdod Lleol, Cynghorwyr Ward, Y Cyngor Cymuned neu'r Cyngor Plwyf, elusennau dethol, Cyngor ar Bopeth Lleol, Age Uk, Disability Action Gogledd Iwerddon a Rhwydwaith Cymunedau Gwledig Gogledd Iwerddon. Hefyd, anogir yr uchod i rannu pob gwybodaeth â grwpiau a sefydliadau lleol a allai, yn eu barn, fod a diddordeb gweithredol mewn newidiadau i'w Swyddfa Bost leol.

Cafodd yr Egwyddorion hyn eu cytuno â Chyngor ar Bopeth, Consumer Scotland a Chyngor y Defnyddwyr yng Ngogledd Iwerddon, cyrff gwarchod statudol annibynnol y defnyddwyr.

Beth i'w wneud os ydych yn teimlo na ddilynwyd yr Egwyddorion hyn:

Cysylltwch â ni, os gwelwch yn dda, fel y gallwn ymchwilio i'ch cwyn. Yn ein hateb byddwn yn esbonio a ydym yn credu ein bod wedi dilyn ein Hegwyddorion Ymgysylltu â'r Gymuned a chewch y manylion cyswllt ar gyfer y corff gwarchod defnyddwyr priodol (Cyngor ar Bopeth, Consumer Scotland neu Gyngor y Defnyddwyr yng Ngogledd Iwerddon) os nad ydych yn fodlon â'n hateb. Bydd y corff gwarchod yn gwneud asesiad annibynnol i weld a ydym wedi dilyn y broses Egwyddorion Ymgysylltu â'r Gymuned (yn hytrach na'r penderfyniad ei hun) ac yn argymhell unrhyw gamau i'w cymryd ynghylch y cwyn.

Postofficeviews.co.uk

Comments@postoffice.co.uk

FREEPOST Your Comments

Ffoniwch: 03452 66 01 15

Ffôn Testun: 03457 22 33 55

¹Os nad oedd y cau wedi ei gynllunio, adolygir y gwasanaeth a ddarperir yn yr ardal, ar sail y defnydd cyfredol, modelu ac argaeledd unrhyw fodel gwasanaeth addas arall. Gwneir penderfyniad masnachol os ceisir amnewid y gwasanaeth sydd ar gau ac ni fydd yn rhwym wrth ymgynghoriad cyhoeddus.